Caerdydd a Bro Morgannwg
Cardiff & Vale

# Rheolwr Gwasanaethau Cynghori

## Beth i'w ddisgwyl

Byddwch yn arwain ac yn datblygu tîm o Arweinwyr Timau i ddarparu portffolio amrywiol o wasanaethau cynghori, gan ysgogi darpariaeth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y cleient, yn bodloni disgwyliadau cyllidwyr a rhanddeiliaid, ac yn cefnogi blaenoriaethau strategol, cynaliadwyedd a thwf y sefydliad.

## Dyletswyddau

Yr holl gyfrifoldebau a ymddiriedir i chi gennym ni

### Rheoli Perfformiad

- Byddwch yn meithrin tîm sy'n perfformio ar lefel uchel, gan ddarparu cefnogaeth barhaus, mentora a hyfforddi i'r Arweinwyr Tîm.
- Byddwch yn gwneud penderfyniadau strategol gwybodus i sicrhau llwyddiant y prosiect a'i alinio â blaenoriaethau'r sefydliad.
- Byddwch yn nodi ac yn datrys materion cymhleth gan ddefnyddio sgiliau dadansoddi a datrys problemau cryf.
- Byddwch yn gyrru cyflawniad Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) ar draws prosiectau lluosog, gan olrhain perfformiad a gweithredu strategaethau gwella.
- Byddwch yn llunio adroddiadau clir a thrylwyr ar berfformiad y prosiect ar gyfer y tîm uwch-reoli, y bwrdd ymddiriedolwyr a'r cyllidwyr.
- Byddwch yn datblygu ceisiadau am gyllid o ansawdd uchel i sicrhau cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori a mentrau cysylltiedig.
- Byddwch yn goruchwylio gwaith y Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Cynghori, gan sicrhau darpariaeth a datblygiad effeithiol o fewn y rôl.

### Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

- Byddwch yn meithrin ac yn cynnal perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid allweddol.

- Byddwch yn chwarae rhan allweddol yng nghyfarfodydd gweithredol y Gronfa Gynghori Sengl gan gyfrannu at gydlynu a chyflawni effeithiol.
- Byddwch yn meithrin perthnasoedd gwaith cydweithredol â swyddfeydd Citizens Advice lleol eraill yng nghonsortiwm Cyngor ar Bopeth De-ddwyrain Cymru (CASEW).

## Diwylliant a Phobl

- Byddwch yn arddangos gwerthoedd y sefydliad ac yn pennu disgwyliadau clir o ran ymddygiad a pherfformiad.
- Byddwch yn meithrin amgylchedd agored, cydweithredol ac atebol, lle mae aelodau'r tîm yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gyfrannu syniadau a datrys problemau.
- Byddwch yn hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gan sicrhau gweithle parchus a chynhwysol i bawb.

## Dysgu a datblygu

- Byddwch yn rhagweithiol yn eich dysgu ac yn nodi eich anghenion datblygiad proffesiynol
- Byddwn yn cefnogi eich datblygiad trwy ddarparu hyfforddiant priodol

## Bod yn gyflogai i CACV

- Byddwch yn cyfrannu at amgylchedd gwaith cadarnhaol a chefnogol drwy drin cydweithwyr â pharch a phroffesiynoldeb.
- Byddwch yn dangos ymrwymiad i'n nodau a'n hegwyddorion, yn cadw at ein polisïau i ddiogelu uniondeb ac enw da'r sefydliad
- Byddwch yn cynnal safonau proffesiynol ym mhob agwedd ar eich gwaith.
- Byddwch yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch, gan ysgwyddo cyfrifoldeb am eich lles eich hun a lles eich cydweithwyr.

## Cyffredinol

- Byddwch yn ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill y gofynnir amdanynt yn rhesymol, yn unol â chwmpas a lefel y rôl.

**Canllaw yn unig yw'r disgrifiad swydd hwn. Nid yw'n trwyadl ac nid yw'n gyfystyr â thelerau ac amodau cyflogaeth.**